## Gwalia Stores

Peniel Road 01267 890345

**Fuel, Shop, Post-office**

**Licensed,**

**Hot & cold food to go, Coffee,  
Newspapers and magazines**



**Tom Eldred**  
Saer Coed - Carpentry

All aspects of carpentry undertaken including roofing, timber frames, stud work, decking, tiling, flooring and kitchens.

**Tel - 07854 167670**

Pantyyffordd, Llanpumsaint, SA33 6BU

THE OLD DAIRY DOG HOTEL  
Seven Brand new luxury kennels  
Spacious individual kennels with their own covered patio area

Underfloor heating for our guests' comfort

18 acres of private grounds to exercise

Fully licensed,

30 years' experience caring for clients' dogs

To view our kennels phone 01267 281628

or 07833630605 or email [conquell@gmail.com](mailto:conquell@gmail.com)

**MYRDDIN  
HERITAGE**

From our field & from our friends,  
monthly delivery of Welsh products to your door

*Cynnyrch o Gymru* 

[www.myrddinheritage.wales](http://www.myrddinheritage.wales)



**Hafan Holistaidd**

Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology

Tyluno / Aromatherapy

Massage

Indian Head Massage

Thermal-auricular (Ear

candling) – Reiki.

**Meleri Brown MAR**

[mels.brown@hotmail.co.uk](mailto:mels.brown@hotmail.co.uk) 07855488660

**Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist**

Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,

SA33 6LT

## Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau

MOT, servicing, tyres, repairs

Tel: (01267) 253599

*JRB & K Thomas*

*Peniel Road Carms SA32 7DR*



## Virtue Holistics

Holistic therapies

Reflexology

Indian head massage

Functional facial.

Megan Williams

07717763460



**Café Felinfach@Little Mill  
Equestrian**

Opening hours: Tuesday - Sunday 9:30 - 15:30

Contact: [info@littlemillequestrian.co.uk](mailto:info@littlemillequestrian.co.uk)  
07951 601612

Tyres | Brakes | MOT | Clutches | Welding | Rally Preparation



Rhodri Evans – 07969654771

Fronhaul Workshop, Llanpumsaint, Carmarthen, DS33 6LX

# *Cherish the Memories*

**Wedding/Funeral Flower Preservation  
Memorial Jewellery**



**Breastmilk Jewellery  
& Keepsakes  
Pet Memorial Jewellery**

**The Watermill  
Llanpumsaint, SA33 6DA**

[www.pandoras-keepsakes.co.uk](http://www.pandoras-keepsakes.co.uk)  
[www.facebook.com/PandorasKeepsakes](https://www.facebook.com/PandorasKeepsakes)

**Local Business?** You can advertise here for £50

Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk), or just £5 an issue for advertising in Village Voice.

**Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)**

---

*Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter.*



# Llais y Llan Hydref 2024

**Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 mis Tachwedd 2024**

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)




Diolchwn Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa am gefnogi Llais y Llan a [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) drwy roi £3,000 y flwyddyn am ddegawd – felly cyfanswm o £30,000

## Neges oddi wrth Derrick Dyn y Post

Wedi 49 mlynedd o weithio i'r Swyddfa Bost a 22 ohonynt yn gwasanaethu Llanpumsaint, hoffwn roi gwybod i'm holl gwsmeriaid fy mod ymddeol ar yr 28ain o Dachwedd 2024. Bu'n bleser dod yma drwy'r dyddiau da a'r rhai anodd. Hwn felly fydd y tro olaf i mi ddod a holl bost y Nadolig i chi.

Wedi ymddeol bwriadaf gychwyn bywyd newydd yn Thailand gyda'm gwraig ryfeddol Om a'i theulu - cyfle i ymlacio gyda'r coed palmwydd, y bwyd Thai a'r heulwen. Dymunaf iechyd a'r gorau i chwi oll yn y dyddiau anodd sy'n wynebu Prydain. Nid yw'r wlad cystal ag y bu, a dyna un rheswm am ymfudo i Thailand am fywyd mwy hamddenol. Felly dymuniadau gorau i chwi gyd - Derrick a Om



# Dyddiadau i'ch dyddiadur

## Digwyddiadau Unigol

- Dydd Mawrth Hydref 15fed - Bingo Calan Gaeaf 6yh - Trefnwyd gan ysgol a'r Cae Chwarae
- Nos Wener Hydref 8fed - Cwis Canol Gaeaf -Gwobrau am wisgo lan - Agor am 7 i gychwyn am7.30 - £2.50 y person - timau hyd at 6 - Dewch a'ch lluniaeth - gwobrau arian
- Sadwrn Hydref 19eg - Teyrnged Ed Sheeran - Neuadd 7.30 - Tocyn £15 cysylltwch â Matthew Jones 07970030679.
- Dydd Mawrth Hydref 22ain - Gwasanaeth Cynheuaf Ysgol Llanpumsaint 2yp Eglwys Llanpumsaint - croeso i bawb.
- Nos Fawrth Tachwedd 5ed –7.30 Pwyllgor y Neuadd
- Nos Wener Tachwedd 8fed – 7 tan 9.30 – Codi Canu Dewch a'ch lluniaeth a £2.50 at y Neuadd.
- Sul Tachwedd 10fed Gwasanaeth y Cofio - Neuadd Croeso i bawb
- Nos Fawrth Tachwedd 12fed – Cyngor Cymuned – Neuadd 8 o'r gloch
- Nos Wener Tachwedd 15fed – Cwis Agor am 7 i gychwyn am7.30 - £2.50 y person – timau hyd at 6 – Dewch a'ch lluniaeth – gwobrau arian

## Uchelfannau'r Nadolig yn Llanpumsaint

- Sadwrn Tachwedd 23ain – Ffair Nadolig yn y Neuadd – 10yb tan 1yp
- Nos Wener Rhagfyr 6ed – goleuo'r Goeden Nadolig – lluniaeth- canu- Sion Corn - 6 o'r gloch yn y Neuadd.
- Nos Sadwrn Rhagfyr 7fed – Gwin cynnes a mins peis – Eglwys Llanpumsaint
- Nos Fawrth Rhagfyr 10fed – Sioe Nadolig yr Ysgol – Neuadd 6 o'r gloch
- Nos Wener Rhagfyr 13eg – Codi Canu – Neuadd – 7 tan 9.30
- Nos Wener Rhagfyr 20fed - Cwis a Pharti - Neuadd - o 7 o'r gloch ymlaen
- Dydd Mawrth Rhagfyr 24ain – Gorymdaith Sion Corn –Nantyrnys 1 o'r gloch

## Digwyddiadau wythnosol

- **Bowlio Dan-Do** - Neuadd – Nos Lun a Nos Iau – 7.30 hyd 9.30
- **Caffi Bach** - Eglwys Llanpumsaint - **Dydd Mawrth** 11.30 gorffen gweini 2.00
- **Dawnsio Llinell** – Neuadd – **Nos Fawrth** 7 o'r gloch.
- **Cwtsh Cynnes** – Neuadd - Dydd Iau 10 tan 1 o'r gloch – celf, crefftau, cardiau, tennis bwrdd, a mwy i'w dilyn gan de cartref. Croeso i bawb.
- **Dosbarth Cylich Redeg** – Neuadd – **Mercher** o 7 hyd 8 a **Sul** o 10 hyd 11yb
- **Cylich Celf** - Neuadd - **Sadwrn** 10 hyd 12 canol dydd.

## Gwasanaethau Crefyddol

- **Eglwys Llanpumsaint - Ewcharist Sanctaidd** am 9 o'r gloch fore Sul
  - **Hwylol Weddi** – Nos Lun 5.30
  - **Chwarae gyda Duw** – dydd Mawrth 3.30 tan 5.00 – stori, gweithgaredd a rhywbeth i fwyta i blant gyda'u rhieni adeg y tymor.
  - **Cylch DOT** - Plant dros 10 oed - Eglwys Dydd Iau 6 tan 7.30 adeg y tymor ysgol.
- Llanllawddog a Celynin Bronwydd 11 bore bob Sul  
Cysylltydd – Tad Tim Nelson 07368 496917 timnelson@cinw.org.uk  
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch ag Eleri Morris 01267 253895.
- **Capel Ffynnonhenri** - Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch â Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 neu Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** - Gwybodaeth am wasanaethau oddi wrth Meinir Jones (Ysgrifennyddes) 01267 253532

## Gwasanaethau wythnosol y pentref

- Dydd Mawrth - **Cerbyd y Swyddfa Bost** - 2 hyd 3.45 o'r gloch – Gyferbyn a'r tafarn
- Dydd Mercher – **Gwasanaeth newydd** – Milfeddyg MiMobile yn ymweld tu allan i'r Neuadd o 3.30 hyd 5.45. Am apwyntiad galwch 01267 220404
- Dydd Mercher – **Cerbyd y Llyfrgell** 11.15 hyd 11.45 ger y Neuadd - 11.45 hyd 12.15 ger y tafarn – [ymweliadau unwaith bob tair wythnos – 6 Tachwedd, 27 Tachwedd, 18 Rhagfyr](#)
- Dydd Mercher - **Cogydd Bara** - gwasanaeth i'r tŷ - 07971 740505
- Dydd Iau - **Ffrwythau a llysiau** - gwasanaeth i'r tŷ - 07969 047045
- Dydd Gwener – **Cerbyd y Swyddfa Bost** - 1 hyd 3 o'r gloch – Gerllaw'r Tafarn.



## Lleoliadau'r Adfywiwr lleol: wastad ar agor 24 awr y dydd.

- **Tu fas y Neuadd Goffa** – SA33 6BZ
- **Tu fas Tafarn y Railwe** - SA33 6BU
- **Ar wal fferm Henfryn Ffynnonhenri** – SA33 6LD
- **Tu fas Festri Capel Nebo** - SA33 6HN

## Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynonhenri

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol ar y 26aino Fedi gan ethol y swyddogion canlynol: Pamela Jones Cadeirydd - Matthew Jones Is-gadeirydd - Ann Rook Trysorydd a Chlerc Llogi - Clare Bishop Ysgrifenyddes a Chofnodion. Gwnaeth Elfed Davies ymddeol o'r Pwyllgor. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd am ei gefnogaeth arbennig gydol y flwyddyn. Diolch hefyd i'r unigolion fu'n gyson gynnal gweithgareddau (cylchdeithiau, llinell ddawnsio, clwb celf, cwtsh cynnes, bowlio, codi canu, y cwis a'r Bar).

Talwyd cydnabyddiaeth arbennig i Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa am eu cefnogaeth hael i'r Neuadd, gan gynnwys y Cwtsh Cynnes, gwelliannau i'r Neuadd a'r cyfleusterau. Buom yn hapus iawn i ddefnyddio'r gwelliannau i'r gegin adeg Swper y Cynhaef diolch i Brechfa (£18,000).



Edrychwn ymlaen yn hyderus at 2025 gan gyd-weithio'n hyderus gyda mudiadau eraill yn y gymuned (megis Y Cae Chwarae, Cymdeithas Athrawon a Rhieni, a'r Eglwys) i sicrhau llewyrch y Neuadd - hyn yn bwysig wrth i ni edrych ymlaen at ei chanmlwyddiant yn 2028.

Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr newydd i ymuno a'r Pwyllgor - ac yn arbennig o gyfeiriad y mudiadau sy'n llogi'r Neuadd yn gyson er mwyn cynnal safbwyntiau amrywiol yn y gymuned. Byddwn yn cyfarfod bob yn ail fis. Gwnaethpwyd llawer o waith yn ddiweddar i ddiweddarau ein polisïau a'n trefniadau. Dros gyfnod y gaeaf daw cyfleoedd i'r Pwyllgor ddatblygu sgiliau asesu risg, diogelwch bwyd, ymwybyddiaeth alergedd a chymorth cyntaf.,  
Dyddiadau i'w cofio

- Nos Sadwrn Hydref 19eg – Noson Deyrnged – Ed Sheeran Tocyn £15
- Sul y Cofio Tachwedd 10fed – Gwasanaeth i'w arwain gan y Parch Marion Osborne
- Sadwrn Rhagfyr 23ain Ffair Nadolig 10yb hyd 1yp – Angen rhoddion i'r Raffl



**NEUADD LLANPUMSAINT  
LLANPUMSAINT HALL**

**TRIBUTE NIGHT**

**+ = ÷ X**  
**El Sheeran**  
**A Tribute to Ed**

**NOS SADWRN / SATURDAY  
19/10/2024 @ 19:30**

<p><b>I ARCHEBU TOCYN, CYSYLLTWCH Â MATHEW 07970 030 679</b></p> <p><b>TOCYN £15</b></p>	<p><b>TO ORDER TICKETS PLEASE CONTACT MATHEW 07970 030 679</b></p> <p><b>TICKET £15</b></p>
--	---

## Hysbysfwrdd newydd

Mae pwyllgorau'r Cyngor Cymuned a'r Neuadd wedi cyd-fynd i brynu hysbysfwrdd allanol newydd. Bydd un ochr yn agored i'r cyhoedd. I wneud y defnydd gorau ohono defnyddiwyd bosteri maint A4 neu A5 gan gynnwys y ddwy iaith ar yr un poster yn hytrach nag ar ddwy.





## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos Fawrth y 12fed o Dachwedd am 8 o'r gloch yn y Neuadd. Cyfarfod cyffredin fydd hwn gyda chyfle i'r cyhoedd ddod i wrando ar y drafodaeth.

Rydym un cynghorwr yn brin ar hyn o bryd, felly os oes gan rywun ddiddordeb ymholwch i [llanpumsaintclerk@btinternet.com](mailto:llanpumsaintclerk@btinternet.com) cyn Hydref y 25ain er galluogi trafod eich cais yn y cyfarfod nesaf. Diolch!

Bydd y **Goleuadau Nadolig** yn cael cynnu ar **Nos Wener 6ed o Ragfyr am 6 o'r gloch**, i'w ddilyn gan gannu carolau a danteithion. Bydd **Siôn Corn** yn talu ymweliad hefyd.

**Angela Bearman, Clerc y Cyngor**



## fnogaeth dda i Fore Coffi MacMillan y codi £545



## Gwahoddiad - Corff Llywodraethol Ysgolion Lleol

Efallai y gwyddoch, mae ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint dan ofal un corff llywodraethol, sy'n cynnwys aelodaeth o rieni a staff y ddwy ysgol gyda chynrychiolwyr o'n cymunedau ag unigolion anibynnol eraill apwyntiwyd drwy ganiatad y llywodraeth lleol.

Mae'r ddwy ysgol yn cynnig gwasanaeth amrhysiadwy i sicrhau addysg lleol a dyfodol i'n cymunedau. Fel Cadeirydd y Ffederasiwn, rwy'n ymwybodol bod ein plant yn ymfalchio byw yn, a medru mynychu ysgol o fewn eu cymuned lleol.

Hoffwn felly, ymestyn gwahoddiad i chi ymuno a'n corff llywodraethol a chynrychioli eich cymuned. Ni fydd eich cyfraniad yn gofyn am llawer o'ch amser ond fydd yn hynod hunan-werthfawr. Bydd eich aelodaeth yn helpu sicrhau fod y Ffederasiwn yn cyflawni ei holl obligiadau gan gynnwys addysg lleol sy'n glwm i'n cymunedau.

Cysylltwch am rhagor o fanylion, neu i drafod ymhellach drwy

[maria.stedman@llanpumsaint.ysgolccc.cymru](mailto:maria.stedman@llanpumsaint.ysgolccc.cymru)

## Safle gwefr drydanol tu allan i'r Neuadd yn weithredol



## Ar Werth

- Sgwter bant o'r hewl TGA gydag offer cyflenwi. Peiriant bron yn newydd mewn cyflwr da iawn. adran cario arian, adain ddrych, olwynion newydd. £500.
- Sgwter ysgafn plethedig (14kg) Offer cyflenwi plwg a batri lithum. Yn newydd £500.



Ardal Llanpumsaint - Casglu yn unig 01267 253148.

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Y Cae Chwarae)

Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r Helfa Drysor, bu'n brynhawn arbennig. Diolch yn arbennig i Meinir (enillydd llynedd) am drefni'r daith, a llongyfarchiadau i deulu Cwmwernen am ennill. Fel ag o'r blaen rhannu'r yr arian rhwng y Cae (er mwyn cynnal a chadw) a'r Elusen ddewisol (Banc Bwyd Caerfyrddin / Ymddiriedolaeth Trussel).

Digwyddiadau ar droed

- Bingo Calan Gaeaf - Nos Fawrth Hydref 15fed - Neuadd 6 o'r gloch. Rhennir yr elw rhwng y Cae Chwarae a'r Ysgol. Gwobrau arian ar gael eleni. Dewch yma am noson hwylus.
- Dydd Mawrth Rhagfyr 24ain - Gorymdaith Sion Corn ar noswyl Nadolig yn dilyn y drefn arferol o amgylch y pentref gan orffen yn y Neuadd. Dechrau ger Ystâd Nantyrnys am 1.30yp, i gyrraedd y Neuadd rywbryd wedi 2.30yp. Bydd Sion Corn yn y Neuadd os oes rhywun am newid eu hanghenion. Bydd diodydd cynnes a mins peis ar gael yn y Neuadd ynghyd a Raffl i orffen y prynhawn. Edrych ymlaen at eich gweld yno.

Cofiwch edrych am ein Facebook newydd am y newyddion diweddaraf am y Cae Chwarae, ynghyd a newyddion am weithgareddau eraill. Fel arfer mae'r Pwyllgor yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i roi hwb i'r cynnal a chadw a chodi arian i'r Cae. Os am gynnig yna cysylltwch â ni drwy e-bost [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) neu siaradwch ag Aaron Jones 07814157946 neu aelod arall o'r Pwyllgor.

## Clwb Cant Llanpumsaint

Rhedir hwn gan y Pwyllgor Lles ac Adloniant gan roi dros £500 y flwyddyn i'r Cae Chwarae at gynnal a chadw.

Llongyfarchiadau i enillwyr eleni.

	1st - £20		2nd - £15		3rd - £10	
March	101	Kevin Mably	107	Sandra Powell	2	Peter Lee
April	85	Ray Davies (Brackla)	117	Stuart James	33	Becky Dufty
May	23	Lyn Henstredge	1	Diane Lee	40	Dewi & Gwen Thomas
June	61	Irene Davies	10	Beth Thomas	58	Alun Stedman
July	78	Elen Davies	72	Ann Wyke	84	Carolyn Atkinson
August	51	Sandy Mather	91	Lesley Hargreaves	57	Maria Stedman
September	88	Mike Eynon	13	Dafydd Jones	119	Rhys a Swyn Roberts

Gellir ymuno o hyd yn y Clwb Cant i fod yn rhan o'r cystadlu gan gynnwys yr un fawr Nadolig. Gallwch gysylltu ag aelod o'r Pwyllgor neu e-bost [llanpumsaint100club@gmail.com](mailto:llanpumsaint100club@gmail.com)

## **Codi Canu Nos Wener**

Mae Codi Canu yn dal i gyfarfod bob yn ail nos Wener o'r mis. Yn y Neuadd o 7 tan 9.30, lle byddwn yn cyd-ganu ffefrynnau'r 60degau, 70degau a'r 80degau. Rydym hefyd yn cynnal nosweithiau thema gerddorol megys Country a Western ac ABBA. Rydym yn annog ein haelodau i ffurfio nosweithiau o'u dewis gan gloi'r noson gyda sianti'r môr a rhai o hoff ganeuon tafarnau'r gorffennol cyn cau. 'Rwyf digon hen i gofio'r dyddiau euraidd hynny, gyda llawer i un arall hefyd. Daw'r geiriau 'nol yn rhwydd iawn.

Felly a wnes eich diddori ddigon i ymuno a ni? Felly dewch atom gyda'ch diod a lluniaeth am £2.50 y noson, am noson o hwyl mewn awyrgylch tafarndy. Gallwch ymuno yn y canu neu wrando fel y dymunwch; so ni'n swnio'n rhy wael! Dyma rai dyddiadau -

- Nos Wener Tachwedd 8fed
- Nos Wener Rhagfyr 13eg – Caneuon Nadolig

***Carolyn Atkinson***

## **Clwb Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd ar y 5ed o Fedi gan ethol y swyddogion canlynol;

- Cadeirydd Derick Lock; Ysgrifenyddes Jill Edwards; Trysorydd Gethin Edwards; Archwilydd Huw Williams; Capten y Tîm Rhys Williams; Is - Gaptin Huw Williams; Swyddogion Diogelwch y Clwb Derick Lock a Huw Williams; Lluniaeth adeg gemau Jill Edwards.

Cychwynwyd y tymor newydd yn yr Adran Gyntaf yn gadarn gyda buddugoliaeth 10 - 0 adre erbyn Llangyndeyrn, ond dilynwyd hwn gan golli erbyn pencampwyr y gynghrair i ffwrdd ym Mhontargothi. Llongyfarchwn Catrin Williams a Jill Edwards am gael eu dewis dros Gymru fel rhan o sgwad o 30 ar gyfer cystadleuaeth Gwragedd Ynysoedd Prydain. Cynhelir hwn eleni yng nghanolfan Bowlio Dan - Do Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin. Byddant yn wynebu timoedd o Loegr, Yr Alban ac Iwerddon.

Hoffwn hefyd groesawu dau aelod newydd, Helen Duffy a Theresa Ifans i'r Clwb. Dymuniadau gorau hefyd i'r aelodau hynny sy ar wellhad wedi salwch.

Mae'r Clwb yn parhau i gyfarfod yn y Neuadd i ymarfer bob nos Lun a nos Iau o 7.30 tan 9.30 o fis Medi tan ddiwedd Ebrill. Mae croeso i chwaraewyr newydd 0 11 oed tan 99. Mae yna hyfforddwy trwyddedig yma i annog a chymorth.

*Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Cadeirydd Derick Lock ar 01267 253524 neu ein hysgrifenyddes Jill Edwards - 01267 2534.*

## Y Cwis

Dychwelodd y Cwis wedi toriad yr haf. Tair noson sydd gennym ddiwedd y flwyddyn. Bydd Cwis Hydref yn llawn cyfeiriadau at Galan Gaeaf ynghyd a llawer o holiadau cerddorol, clipiau, posau, lluniau a'r prif holiadau. Anogir gwisgo lan ond nid yw'n orfodol. Er hynny fe wobrwyr yr unigolyn a'r Tîm gorau (Anodd fydd hi i drechi oreuon llynedd).

Hyd ddiwedd y flwyddyn croesewir timoedd hyd at 6, oherwydd gall fod yna nifer o ymwelwyr yma adeg y Nadolig. Os allwch fwcio ymlaen llaw fydd hyn yn gymorth i'r bwydo. (Ie fe fydd yna ddanteithion ychwanegol hefyd).



Bydd Cwis Tachwedd yn cynnwys clipiau ac fe blesir y botanegwyr gan rownd y lluniau. Yna daw Cwis Nadolig Rhagfyr i arddangos y dawnswyr Siôn Corn, a datgelu enillwyr y gynghrair a phwy gafodd y sgôr unigol gorau. Ar hyn o bryd ond 2% sydd rhwng y tri cyntaf, felly pwy a wŷr pwy ddaw ar frig.

Yn y Cwis Unigol (rhain sydd tu fas y tri safle uchaf y gynghrair) Tîm y Swallows sy'n arwain gyda'i sgôr ym Mis Chwefror, ond gyda thri arall yn dun wrth ei gwt.

Hefyd gwobr arbennig am y siwmpwr orau. Felly edrychwn ymlaen at groesawu cymaint gallwn i'r Cwisiau, oherwydd mae ein llwyddiant yn ddibynnol ar gefnogaeth y timoedd a'r unigolion.

Dyddiadau

- Hydref 18fed – Cwis Calan Gaeaf Gwobrau am wisgo lan.
- Tachwedd 15ed
- Rhagfyr 20fed -- Cwis Parti Nadolig gan ddatgelu enillwyr y Gynghrair a'r cwisiau Unigol

**Sara and Darrell**

## Polisi Cwn yr Eglwys

Penderfynodd Pwyllgor yr Eglwys yn ddiweddar i ofyn i bobl beidio dod a chwn i'r Eglwys - yn arbennig i'r Caffi Bach - am y rhesymau canlynol.

- a) – Iechyd a Glendid – bwyd a diod yn bresennol
- b) – Diogelwch – i atal cwmpo ar y llawr
- c) – Ofnau rhai pobl sy'n mynychu'r Caffi Bach
- d) - Rhai'n cadw draw oherwydd y sŵn

Gobeithio bydd y gymuned yn deall a chefnogi'r penderfyniad. Er i'r gwahoddiad i fynychu gweithgareddau'r Eglwys yn parhau ni ellir bellach dod a chwn yno.

## Eglwys Llanpumsaint

Dyma ni unwaith eto, mae amser yn hedfan; gwyliau'r Haf wedi mynd a'r plant 'nol yn yr ysgol. Mae cymuned yr eglwys yma o hyd ac yn llewyrchus.

Bydd y Caffi Bach ar agor ar ddydd Mawrth o 11.30yb tan 2.30yp, gyda'r archeb olaf am ddau o'r gloch, dan arweiniad arbennig Christine Jameson.

Gwelir Chwarae Duw ar ddydd Mawrth o 3.30yp tan 5o'r gloch. Yn agored i blant o oed cynradd a llai. Rhedir hwn gan Niki Day gyda chymorth taid a nain, rhieni a gwarchodwyr.

Mae DOT i blant eilradd yn parhau ar hyn o bryd ar nos lau o 6 tan 7 o'r gloch, ond gallai barhau'n hirach yn ôl y dymuniad. Rhedir ef gan y Parch Tim gyda chymorth Niki Day.

Mae yna wasanaethau bob Sul am 9 o'r gloch gyda'r Sul olaf o'r mis yn Wasanaeth Teuluol. Am wybodaeth bellach ewch i'r Caffi neu'r hysbysfwrdd.

Mae gweddi gyda'r hwyr bob dydd Llun am 5:30pm a gymerir erbyn Niki Day.

Bu Swper y Cynhaeaf yn llwyddiant mawr gyda thua 70 wedi dod gan godi £1,100 i'r Eglwys a'r Banc Bwyd. Diolch yn fawr i'r cogwyr yn y gegin am y bwyd blasus, gwobrwyau hael y Raffl a phob cyfraniad arall.



Cyn hir daw'r amser i win cynnes a mins peis ar ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr.

Christine Jameson yw Warden y Ficer a Niki Day yw Warden y Bobl. Felly os oes gennych ymholiad neu awgrym dyma'r ddwy i gysylltu â nhw. Erbyn hyn mae Niki yn Arweinydd Addoli Cydnabyddedig, ac yn arwain gweddiâu mewn rhai gwasanaethau.

Mae cymaint yn digwydd yn yr Eglwys a chroesewir pawb. Rhowch gynnig arni, 'does dim angen profiad, ac rydym yn griw cyfeillgar. Efallai dyma beth i chi'n chwilio amdano neu angen.

## Cwtsh Cynnes Dydd Iau

Mae'r Cwtsh Cynnes yn ôl am yr Hydref ac yn cwrdd o 10yb tan 1 o'r gloch bob dydd iau hyd at Ragfyr 19eg. Rydym i gyd yn falch o ddychwelid at ein coffi a'n cacennau a'r crefftwaith. Cawsom gychwyn gwych u'r tymor gyda'm hen wynebâu a rhai newydd hefyd. Penderfynwyd codi £2.50 am aelodaeth fydd yn gymorth i gynnal y Neuadd a thalu am ddefnyddiau i'r dyfodol. Beth bynnag rydym yn awyddus i estyn cyfle i bawb, felly os yw'r gost i weld yn fynydd siaradwch a Pauline neu Debbie.



Daw crefftwr/arlunydd atom bob pythefnos a hyd yn hyn anturiom i fyd paentio blodau inc, a lleuad ddelweddu. Ar y rhaglen i ddod bydd gwneud gemau, mwcrum, crochenwaith a darlith ar alergedd bwyd. Yn yr wythnosau eraill heb ymwelwyr naill a'i bydd aelod o'r Cwtsh yn arwain sesiwn grefft (gweler llun o gelf botwm), ymgom ddiddorol neu ddod yno a'n crefftwaith personol. Mi allwch hefyd ddod yma am goffi a chlonc yn unig, deallwn nad yw crefftwaith yn apelio at bawb. Rydym yn ffodus dros ben i'n gwirfoddolwyr hynaws am weini'r ymborth i ni, boed yn gawl neu gacennau. Ambell dro down a'n cinio pecyn. Cadwch lygad am gyfraniad Pauline i Facebook i weld beth fydd ymlaen a beth fydd i fwyta.

*Rydym yn llw bach cyfeillgar estyn llaw i bawb newydd, felly rhowch gynnig arni.*

## Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio'n ymarfer defnyddiol a diddorol ac yn hawdd i'w ddysgu. Credir iddo gychwyn yn yr Aifft neu hyd yn oed yn gynharach. Gwelir cwmnïau'n defnyddio dewinwyr profiadol i ganfod dŵr, mwynau, olew, gwifrau trydan ac yn y blaen. Gwelir rhai yn dewinio iechyd eu bwyd, neu ganfod straen geopathig yn yr amgylchfyd, ond cred bersonol yw hyn heb gadarnhad gwyddonol hyd yn hyn. Pam na ymunwch a ni i ganfod pethau dros eich hunan. Fel arfer down o hyd i amser ar ddiwedd ein cyfarfodydd i roi gwers fer, neu'n well fyth dowch ar un o'n hymweliadau Sul Medi 22ain. Sid Howell - Dr William Price - Y Derwydd Cymreig. Diolch yn fawr iawn i Sid Howell am ei araith fanwl a doniol ar adegau. Dyn unigryw a deallus iawn wnaeth hyfforddi fel meddyg ond gydag agwedd bersonol am fywyd ac yn barod i'w rhannu gydag unrhyw un fyddai'n barod i wrando arno. Credai'n gryf iawn i Aifft y Ffaros a'u Hieroglyff fod o dras Gymreig. A phwy alle anghydfynd ag e yn y 19eg ganrif, ag efallai gorfod wynebu llys barn? Dyn dylanwadol iawn! Ar ben hyn gwelwyd nifer o'i gymdogion yn crafu pen a dyfalu beth nesaf! Price fu'n gyfrifol am gyfreithloni amlogi. Daeth dros 20 mil i weld ei amlogiad ei hun yn 91 oed. Os am wybod mwy am gymeriad unigryw hwn yn hanes Cymru ewch i <https://www.egypt.swan.ac.uk/> Lleolir hwn ar gampws Prifysgol Abertawe, felly dydd Sadwrn yw'r amser gorau amdani.

Cyfarfodydd ar ddydd Sul am 1.45 i gychwyn am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd

- Sul Hydref 27ain Tony Ryan – Sut i wneud Bwgan eich hunan
- Sul Tachwedd 24ain Ros Briagha yn dychwelid gyda Sêr - Ddewiniaeth Gyfoes
- Dim Cyfarfod yn Rhagfyr
- 

Oherwydd costau cynyddol mae ein Haelodaeth nawr yn £20 y flwyddyn. Mynediad yn £6 i'r aelodau i gynnwys tocyn raffl a £6 i eraill am y cyfarfod cyntaf ond £10 am yr ail yn y gobaith yr ymunwch. Nid oes angen unrhyw gyfarpar, dewch fel i chi. Ewch i Facebook am y diweddaraf neu i'r wefan - <http://westwalesdowers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547 neu [westwalesdowers@gmail.com](mailto:westwalesdowers@gmail.com)



## Clwb Gwili Chwedeg

Mae hwn yn fudiad llewyrchus sy'n cynnal gweithgareddau mewnol bob mis ynghyd ag amrywiaeth o deithiau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys y Twrci a Thinsel 4 Diwrnod yn Nhachwedd. Dros y blynyddoedd buom yng Nghernyw, Dyfnaint a Gwlad yr Haf.

Gwnaeth ein haelodau fwynhau ein hymweliad a chanolfan siopa Macarthur ar ddydd Mercher 4dd o Fedi. Ganol wythnos nid oedd y siop yn rhy brysur, ac elwodd nifer ar fargenion rhad. Da o beth oedd hi i fod allan o'r oerfel yn mwynhau'r coffi a'r cacennau mewn nifer o gaffis bach oedd yno. Tawel ond pleserus oedd Porthcawl gyda digon o le yn y tafarnau, ac aeth rhai mwy mentrus i fwynhau awel y môr a'r golygfeydd.

Rydym yn cyfarfod yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch ger y maes parcio prysur. Rhaglen y misoedd nesaf –

- Llun Hydref 28ain – David Evans Yn siarad am y Llysoedd
- Llun Tachwedd 25ain – Peter Hughes Griffiths Mwy am fy mywyd.
- Mercher Rhagfyr 11eg – Cinio Nadolig yn y Llwyn Iorwg Caerfyrddin
- Llun Ionawr 27ain 2025 - Cyfarfod Cyffredinol

*Aelodaeth am flwyddyn £10. £2 mynediad yn cynnwys tocyn raffl. Gwybodaeth bellach gan Val Giles Ysgrifenyddes 01267 281194.*

## Clwb Cochion Llanpumsaint

Ar nos Iau Medi 19eg 2024 cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Clwb Cochion yn neuadd Llanpumsaint. Cafwyd adroddiad llawn gan y Cadeirydd, Ysgrifenydd ac hefyd adroddiad ariannol gan y Trysorydd.

Rydym dal yn chwilio am Arweinydd neu os oes gennych ddiddordeb ymuno a'r pwyllgor neu helpu yn y clwb fel gwirfoddolwr neu weithiwr achlysurol cysylltwch a Donna Thomas, Cadeirydd y Clwb [donnathomas08@outlook.com](mailto:donnathomas08@outlook.com)

MAE PWYLLGOR CLWB COCHION EISIAU PENODI  
CLWB COCHION COMMITTEE WOULD LIKE TO APPOINT

**ARWEINYDD CLWB COCHION**  
**CLWB COCHION LEADER**  
@ YSGOL LLANPUMSAINT

ORIAU / HOURS  
DYDD LLUN, DYDD MAWRTH A DYDD IAU  
MONDAY, TUESDAY AND THURSDAY  
15:30 - 17:30

Gydag oriau ychwaengol ar gyfer gweinyddiaeth a pharatoi (i'w drafod)  
With additional hours for admin and prep (to be discussed)

**£12.50 yr awr / per hour**

Byddai Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae yn fantais, neu'r gallu i weithio tuag ato.  
NVQ Level 3 in Playwork would be an advantage, or the ability to work towards it.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â  
For more information contact  
**Donna Thomas, donnathomas08@outlook.com**  
Cadeirydd Clwb Cochion / Clwb Cochion Chairperson

BRECHFA FOREST WEST WIND FARM  
1999/2000 LTD. 01267 281194

Rhif Elusen / Charity No: 1209451

Diolch i bawb oedd yn bresennol ac ar-lein. Cyn terfynnu diolch i bawb sy'n helpu i gynnal y Clwb h.y Staff y Clwb, staff yr Ysgol, y Pwyllgor, Fferm Wynt Brechfa am eu cefnogaeth diflino, y rhieni am ddanfôn eu plant a'r ardal gyfan sy'n para i gefnogi'r Clwb.

## Blwyddyn Ysgol newydd – Ysgol Llanpumsaint

Bu nifer o newidiadau i'r ysgol ar ddechrau'r tymor. Croeso cynnes i Mrs Delyth Evans bydd yn dechrau yn yr ysgol yn fuan.

Creoso hefyd i'r 1 disgybl newydd sydd wedi dechrau gyda ni yn yr ysgol.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cyffrous yn barod. Cafwyd diwrnod arbennig yng nghwmni Rhys Padarn o Orielodl yn creu ein murlun newydd. Bydd y murlun yn arddangos tu allan i'r ysgol cyn bo hir! Diolch i ti Rhys.



Roedd Dosbarth Gwili wedi joio mas draw yn gwrando ar gerddorfa'r Gwasanaeth Cerdd Sir Gâr ar ddydd Gwener Medi 27ain gyda'i ffrindiau o Ysgol Cynwyl Elfed.

Mae yna dipyn i edrych ymlaen at hefyd:

- Bydd Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Llanpumsaint yn eglwys Llanpumsaint ar ddydd Mawrth Hydref 22ain am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.
- Bydd noson Bingo Calan Gaeaf wedi ei drefnu gan y GRhA yn Neuadd y Pentref ar nos Fawrth Hydref 15fed am 6 o'r gloch.

## Bioamrywiaeth Llanpumsaint

Mewn noson hynod o ddiddorol ger y llyn gyda Danny Dyn yr Ystlumod cafwyd 4 gwahanol fath ohonynt.

Ystlum Lleiaf- 2 gwahanol fath adweinir gan fynychder eu galwadau - un yn defnyddio galwad o 45 kHz a'r llall y soprano ar 55 kHz - yr ail yw'r un mwyaf niferus ym Mhrydain gyda'r cyntaf yn ail. Bychan yw'r Ystlum Lleiaf ofaint bys bawd gan bwysu cymaint â darn £1ond yn bwyta 3000 gwybedyn y nos.

Ystlum Mawr - hwn yn hela ar gyflymdra o 12 i 25 m.y.a. a hyd yn oed gallu cyrraedd 37 m.y.a.. Bydd y benywaidd yn ymfudo tua'r gogledd mor bell â'r Baltic am enedigaeth yn yr haf.

Ystlum hir glust - mae ganddo lygaid a chlustiau mawr er mwyn defnyddio gweld a chlyw i hela. Bydd eu clyw yn ddigon da i glywed gwyfyn yn hedfan. Datblygwyd hwn er mwyn goresgyn dawn rhai gwyfynod i ganfod y lleoliad adlais ac yna osgoi cael eu dal.

Ceir 18 gwahanol fath o ystlumod ym Mrhydain, ac mae'r nifer a'u hiechyd yn arwydd o ansawdd natur yma. Golyga llawer o ystlumod fod nifer yr anifeiliaid di-asgwrn cefn yn iachus. Gall ystum fyw hyd at 30 mlynedd. Mae'r Ymddiriedolaeth Coetir yn rhestri nifer o resymau oherwydd eu dirywiad - llai o lefydd bwyta ac ehedeg, llai o bryfed oherwydd colli cynefin a'r defnydd o'r plaladdwr, newid hinsawdd a'r safleoedd clwydo a goleuadau yn disgleirio i'r manau hynny, felly llai o gartrefi dros nos.

Bydd mwy am yr ystlumod yn 2025 felly cadwch lygad ar safle Bioamrywiaeth Llanpumsaint.

## Darnau o ffawydden a sycamorwydden ar werth

Mae'r ffawydden wedi ei sychu yn iard goed Cwmdudad cyni mi eu prynu yn 2007- 'roedd gan y perchennog tua 80 erw dir gallt. Yn dilyn hynny cedwid ef dan do. Defnyddiwyd peth ohono i wneud cypyrddau cegin a droriau. Gellir gweld yr holl waith, ac mae'r canlyniad yn wefreiddiol

### Maint y slabiau ffawydden

Uchder	Lled	Hyd	Nifer
3"	11 – 13"	78"	13
3"	17"	78	1
4-5"	13"	52	5

Tyfodd y sycamorwydden yn ein gardd ond torrwyd hi lawr yn 2006 oherwydd yr estyniad. Torrwyd hi lan gan yr adeiladwr i fod dan do ers hynny. Mae'r slabiau ar werth.

### Maint y slabiau Sycamor - amcan

Uchder	Lled	Hyd	Nifer
6"	10"	75"	1
4"	14	75"	1
3"	10 – 12"	75"	8
2 – 3"	10 – 12"	??	2

Byddai'n rhaid rhyddhau popeth er mwyn canfod hyd y 2 -3"

Derbyn y cynnig mwyaf rhesymol - Cysylltwch â Dave 01267 253993 neu 07980 271279.

## Dilyn ‘nol ar Aled y Dole

Erbyn hyn nifer fychan iawn o gartrefi Llanpumsaint sydd wedi aros yn yr un teulu am dros ganrif o flynyddoedd. Mae'r Dolau, ger Glannant, ar heol Ffynnonhenri, yn un ohonynt, ac yn datgelu hanesion diddorol ac amrywiol.

Er i Aled gael eu godi yn Cwmffrwd gan Dilwyn a Gwenda gwnaeth ddychwelid i gartref Jac ac Agnes eu dadcu a mamgu, i gynnal y traddodiad teuluol. Rywbryd rhwng 1901 a 1905 symudodd Samuel a Sarah Davies (eu hen dadcu a mamgu ) o ystafelloedd cyfyng Woodcock Lodge yn Pentre Morgan i lonyddwch y Dolau. Pan briododd y ddau yn Eglwys Llanpumsaint yn 1892 rhaid fod Sarah wedi teithio llai nag un priodas ferch arall – croesi'r heol yn unig o'i chartref yn siop Gwili Vale. O gyrraedd y Dolau yr oedd ganddynt ddau o blant yn barod, sef Annie (mam Frances Pantygof) a Tom (fy nhad), Ganed pedwar arall iddynt yn y Dolau; Jack ,aeth yn goedwigwr i Benllegaer ger Abertawe; Dai Dolau neu Dai Benzole ddaeth yn arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn Ystus Heddwch: Hannah briododd Luther y glowr: Agnes oedd yr olaf a hi wnaeth aros yn y Dolau. Rhaid fod angen tipyn o gefnogaeth ar Sarah druan pan laddwyd Sam ei gwr ar y rheilffordd, ar y diwrnod hiraf y flwyddyn ac o fewn misoedd i'w ymddeoliad yn 1934. Wedi priodi Jac arall daeth Agnes yn fam i dri bachgen: Gwynfor aeth i'r byd trydannol, Robert yn Borter i Ysbyty Glangwili, a Dilwyn i ddatblygu ei gwmni dysgu Gyrru a phriodi Gwenda Trin Gwallt. Wedi dyddiau Agnes dychwelodd Aled i'r Dolau gan adnewyddu llawer arno. Diddorol sylwi fod bellach ganddo yntai fab, Jac- i barhau'r traddodiad efallai.

**Arwyn**

Pili-pala – Sally Chitty



Awyr nos uwchben Llanpumsaint ar 10 Hydref – Lochlann Nelson